# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (228)

**Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Hydref 2006**

**Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma**

**2.00pm**
**Munud o ddistawrwydd i gofio trychineb Aberfan**

**2.06pm**
**Eitem 1: Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 1 a 10 eu grwpio a thynnwyd cwestiwn 13 yn ôl.

.......................................

**2.54pmpm**
**Eitem 2: Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 4 a 13 eu grwpio a thynnwyd cwestiynau 5 a 12 yn ôl. Trosglwyddwyd cwestiwn 11 i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

.......................................

**Eitem 3: Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**

Ni chyflwynwyd cwestiynau.

.......................................

**3.20pm**
**Eitem 4: Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Trafodiad Hysbysadwy o dan Reol Sefydlog 21 – Cais Cyngor Sir Caerdydd i gynnal Gemau Ysgolion y DU yn 2009**

......................................

## 3.41pm
## Eitem 5: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)

**NDM3252 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 11 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.**

**NDM3253 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 11 Hydref 2006.

Noder: Ni osodir Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau ynghylch y Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo'r rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

......................................

*Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân:*

## 3.46pm
## Eitem 6: Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro drwy Loeren) (Cymru) 2006

### NDM3254 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro drwy Loeren) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y gorchymyn:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd egwyddor y gorchymyn.**

### NDM3255 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro drwy Loeren) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro drwy Loeren) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006; ac
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo’r gorchymyn:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y gorchymyn.**

**......................................**

## Eitem 7: Cynnig i gymeradwyo Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 25.2

**NDM3256 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain drwy Loeren) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y cynllun:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd egwyddor y cynllun**

**NDM3257 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006 ynghylch y cynllun drafft, Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain drwy Loeren) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y cynllun drafft, Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain drwy Loeren) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo’r cynllun:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y cynllun.**

.......................................

## Eitem 8: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2006

Ni chyflwynwyd cynnig.

.......................................

## 3.50pm
## Eitem 9: Cynnig i gymeradwyo The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) (No. 2) Order 2006 o dan Reol Sefydlog 26

**NDM3258 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 26:

Yn cydsynio bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) (No. 2) Order 2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006.

Ni fydd y Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru heb gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

.......................................

## 3.57pm
## Eitem 10: Cynnig i gymeradwyo The Closures Guidance (Railway Services in England and Wales) Order 2006 o dan Reol Sefydlog 26

**NDM3259 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 26:

Yn cydsynio bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y gorchymyn, The Closures Guidance (Railway Services in England and Wales) Order 2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Hydref 2006.

Ni fydd y Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru heb gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno a'i e-bostio at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Hydref 2006.

Noder: Anfonwyd copïau o'r Railways Closures Guidance ar wahân at Aelodau'r Cynulliad dros yr e-bost ar 11 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 7 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

.......................................

## 4.14pm
## Eitem 11: Dadl ar Chwaraeon

## 5.00pm
## Cynnig trefniadol

Yn unol â Rheol Sefydlog 6.21, rhoddodd y Trefnydd gynnig trefniadol ger bron i estyn y cyfarfod am 30 munud:

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 6 | 33 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**NDM3260 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyhoeddi Dringo'n Uwch: Y Camau Nesaf, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2006;

2. Yn nodi'r buddsoddiad cyhoeddus arfaethedig ychwanegol mewn chwaraeon;

3. Yn nodi bod y cynllun Nofio am Ddim wedi'i ddarparu'n llwyddiannus i bobl ifanc a phobl hyn.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnwys pwynt newydd ar ôl 2. ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

> *"Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer prosiectau chwaraeon ym mhob cymuned yng Nghymru."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 8 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 -Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnwys pwynt newydd ar ôl 2. ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

> *"Yn cydnabod os a phan ddaw cyllid Cymunedau yn Gyntaf i ben, bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru barhau i gyllido rhaglenni datblygu chwaraeon cymunedol er mwyn i'r prosiectau chwaraeon hyn y mae mawr eu hangen ac a werthfawrogir allu parhau i wella iechyd a lles cyffredinol y rheini sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 7 | 33 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 -Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnwys pwynt newydd ar ôl 2. ac ail-rifo’r pwyntiau sy'n dilyn:

> *"Yn gresynu nad oes cyllid ar gyfer Tystysgrif Hyfforddi’r DU wedi cael ei ymgorffori yng nghynlluniau gwariant y gyllideb."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 8 | 27 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu Pwynt 3 a rhoi yn ei le:

> *"Yn gresynu bod polisi Nofio Am Ddim Llafur wedi methu â diwallu anghenion amrywiol pobl Cymru."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 8 | 27 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnwys pwynt newydd ar ôl 3. ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

> *"Yn cydnabod bod lle i wella'r Cynllun Nofio Am Ddim ac yn disgwyl am yr adroddiad gwerthuso ym mis Mehefin 2007 i argymell y ffordd orau o fynd â'r cynllun rhagddo."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 27 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod timau chwaraeon ieuenctid rhanbarthol yn cael defnyddio cyfleusterau chwaraeon awdurdodau lleol yn ddi-dâl."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 4 | 32 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn cefnogi'r safbwynt a gymerwyd gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru yn erbyn cael tîm pêl-droed yn cynrychioli'r DU yng Ngemau Olympaidd 2012 a allai fygwth annibyniaeth Cymdeithasau Pêl-droed Cymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 29 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi adroddiad cyn gynted ag y bo modd ar y cynnydd gyda chais Cymru i lwyfannu Gemau'r Gymanwlad ac i ddangos y budd a ddaw i Gymru gyfan o'r cais."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 27 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

> *"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal Archwiliad o'r holl gyfleusterau chwaraeon yng Nghymru er mwyn hyrwyddo'r defnydd o gyfleusterau chwaraeon yn y gymuned."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 8 | 27 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i flaenoriaethu buddsoddiad mewn cyfleusterau hyfforddi o safon uchel."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 10.**

**Gwelliant 11 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd a wnaed o ran sefydlu cais ar gyfer Gemau'r Gymanwlad."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 27 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 11.**

**Gwelliant 12 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i neilltuo arian y gall timau chwaraeon ieuenctid yng Nghymru ei ddefnyddio fel cymhorthdal ar gyfer costau citiau a theithio."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 12:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 35 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 12.**

**Gwelliant 13 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu strategaeth i wella cyfleoedd chwaraeon ar gyfer y rheini sydd â nam ar eu golwg."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 13:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 27 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 13.**

**Gwelliant 14 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cyllid ar gyfer costau llety a theithio timau chwaraeon cenedlaethol pan fyddant yn cynrychioli Cymru dramor."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 14:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 8 | 32 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 14.**

**NDM3260 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyhoeddi Dringo'n Uwch: Y Camau Nesaf, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2006;

2. Yn nodi'r buddsoddiad cyhoeddus arfaethedig ychwanegol mewn chwaraeon;

3. Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer prosiectau chwaraeon ym mhob cymuned yng Nghymru.

4. Yn nodi bod y cynllun Nofio am Ddim wedi'i ddarparu'n llwyddiannus i bobl ifanc a phobl hyn.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i flaenoriaethu buddsoddiad mewn cyfleusterau hyfforddi o safon uchel.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 7 | 0 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**.......................................**

## 5.30pm
## Eitem 12: Dadl fer - Drymiau, Sacsoffonau a Ffidlau

**NDM3251 Tamsin Dunwoody (Preseli Sir Benfro):**

Drymiau, Sacsoffonau a Ffidlau

**.......................................**

## Daeth y cyfarfod i ben am 5.49pm.

**.......................................**

# Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 24 Hydref 2006

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**